

## 1. Barton Delhi, 2022

Dathlu 75 mlynedd o gymuned De Asia yn Barton a Tredworth, Caerloyw

*Mae'r breswylfa hon yn garreg filltir arwyddocaol, a gafodd ei chomisiynu gan Strike a Light, sy'n dathlu 75 mlynedd o gymuned fywiog De Asia yn Barton a Tredworth, Caerloyw.*

*Mae'r prosiect yn crynhoi tapestri cyfoethog profiadau, traddodiadau a chyfraniadau cymunedau Bangladeshaidd, Indiaidd a Phacistan yn yr ardal. Cynhaliwyd y breswylfa trwy weithdai gafaelgar a gynhaliwyd yn y Friendship Cafe a bwyty Bangladeshaidd, gan roi cyfle unigryw i ymchwilio i gyfoeth diwylliannol y cymunedau hyn.*

*Roedd y gweithdai yn meithrin ysbryd o gyfeillgarwch a phrofiadau a rennir, gan dynnu sylw at natur fywiog, gyfeillgar a gofalgar cymuned De Asia.*

*Rhannodd y cyfranogwyr straeon, traddodiadau a danteithion wedi'u coginio, gan greu cyfnewidfa fywiog o dreftadaeth ddiwylliannol Tanlinellodd y prosiect daith hanesyddol a chyfraniadau cymuned De Asia dros y 75 mlynedd diwethaf, gan gyfoethogi ffabrig cymdeithasol a diwylliannol Barton a Tredworth.*

*Mae'r dathliad hwn yn anrhydeddu'r gorffennol yn ogystal â chryfhau'r cysylltiadau o fewn y gymuned, gan baratoi'r ffordd i genedlaethau'r dyfodol werthfawrogi eu treftadaeth ddiwylliannol gyfoethog a'i chynnal.*

Strwythur hongiwyr a lled-gylch metel a wnaed gan Michael Marriot

Gwellt, ffoil, tagiau sigl, toriadau dillad, strapiau webin, cysylltiadau cebl, stampiau postio o India Pacistan, Bangladesh, blodau ffug, clychau, neon, cardiau, cortyn, pren, metel, cambrenni gwifren, llwyau coffi, ffabrig sari, cortyn hesian jiwrt, lledr, rhuban ffoil, papur sidan, marcwyr.

249cm x 176cm x 4cm

## 2. Envelop, 2023

*I Gadw Lle; Mae ymddangosiad sydyn, ymosodol siâp seren wib yn darlunio amlwasgio, anadlu dwfn, a'r egni dwys a ddefnyddiwyd wrth*

---

*orfeddwl hyd at bwynt blinder. Mae'n symboleiddio cylch gwthio eich hun i'r eithaf, gan brofi cwmp a llonyddwch, dim ond i godi eto.*

Talennau plastig diwydiannol, cardfwrdd, pennau ffelt trwchus, styffylau, papur meinwe, llwyau coffi pren, rhwyd neilon, styffylau, strapiau plastig polypropylen, khadi sidan wedi argraffu, ffabrig hen grys, lledr, bwrdd llwyd, cerdyn pecynnu, derbynebaw, beiro, papur rizla, wedi fframio.

99 x 78.5cm [39 x 30 7/8 modfedd]

### **3. Bloom, 2023**

*Mae'r enaid a'r meddwl — eu prosesau, eu teithiau, a'r ing a'r tensiwn y maent yn ymgodymu â nhw — yn fywiog bwerus. Mae'r lliwiau clec-clec yn symbol o agweddau tywyll a gwydn iechyd meddwl.*

Bagiau plastig, ffabrig cotwm, rhaff satin, cwpanau coffi, clymiadau cebl, blychau wyau, pennau ffelt trwchus, rhuban polyester, napcynau, gwe rwber, gwllân, edau gotwm, cadach, llinyn cotwm, rhwymiad bias, cardfwrdd, tâp selo bregus, effemera, cerdyn neilon, llygaden metel, crys-t jyrsi, styffylau.

99 x 78.5cm [39 x 30 7/8 modfedd]

### **4. Think, 2021**

*Mae'r darn hwn yn crynhoi pŵer trawsnewidiol therapi a myfyrdod, gan bwysleisio ymddiriedaeth, myfyrio a thwf personol fel elfennau annatod o'r daith tuag at hunan-ddarganfod a heddwch mewnol.*

Napcynau, papur sidan, poplin cotwm, pecynnu cardfwrdd, papur pecynnu brown, derbynebaw / anfonebau / tocynnau teithio a ddarganfuwyd, papur o wahanol bwysau, cortyn, llwyau coffi pren, ffabrig, posca, marcwyr sharpie a phen beiro.

99 x 84 cm [39 x 33 1/10 modfedd]

## 5. Present, 2021

*Ydych chi'n bresennol, dyma anrheg, rwy'n ei chyflwyno i chi.*

*Anogir gwylwyr i ystyried y gwaith celf*

*Mae'n cynnwys cyfansoddiadau bach cymhleth, a grefftwyd yn llafurus, yn swatio ymhlith ei gilydd, cyfuniad o wead a lliw dwys Mae'r darn yn archwilio themâu brwydrau pŵer geowleidyddol, dadleoli pobloedd, a thrychineb.*

Edau wlân, edau bolyester, cardfwrdd rychog, cylchoedd wedi'u pynsio o dyllwr, cadach a ddefnyddiwyd, papur sidan, cynfas, bagiau pecynnu plastig, lledr, papur graff, tocynnau, tocynnau sigl, tâp selo, tâp pacio, talennau plastig diwydiannol, cerdyn fflwroleuol.

99 × 84 cm [39 × 33 1/10 modfedd]

## 6. Is par kitni lagat aati hai?

### How much does it cost?

اس پر کتنی لاگت آتی ہے؟

**2023**

Wedi'i gomisiynu gan Uthra RajGopal ar gyfer Sioe Ddwyflynyddol Tecstilau Prydain 2023 ar thema Ffasiwn a Chynaliadwyedd yn Amgueddfa Whitaker yn Swydd Gaerhirfryn, ochr yn ochr ag 16 artist o India, Bangladesh a Phacistan.

*Roedd y gwaith yn fy herio i a'm proses, gan ymchwilio i'r brwydrau pŵer sy'n effeithio ar Dde'r Byd, yn enwedig esgeuluso amgylcheddau gwaith diogel ac effaith garw ffasiwn gyflym. Ymchwiliais i gwmp Rana Plaza, methiant strwythurol trasig a ddigwyddodd ar 24 Ebrill 2013 yn Upazila Savar Dosbarth Dhaka, Bangladesh. Arweiniodd cwmp adeilad wyth llawr Rana Plaza at farwolaeth ddinistriol 1,134 o bobl, a chafodd oddeutu 2,500 o unigolion a anafwyd eu hachub o'r rwbel. Saif y digwyddiad hwn fel y methiant strwythurol damweiniol mwyaf marwol mewn hanes modern, y trychineb fwyaf marwol mew ffatri, a'r ddamwain ddiwydiannol fwyaf marwol yn hanes Bangladesh.*

---

Strwythur hongiw'r a wnaed gan Michael Marriott

Clymiadau cebl, hen dyweli te, llwyau coffi, stampiau Bangladesh, arian papur Bangladesh, paent sglein, drych, ffabrig sari, bachau patrwm, dupatta, hesian, metel, bagiau papur, cyrc gwin, cortyn, blodau plastig, styffylau, polystyren, t p giaffar, gwlan a adawyd, hen dywel, pinnau, hen ddalen wely, gwellt, stethosgop, torion papur wal, bag plastig, crinolin, lledr, tagiau pris a ganfuwyd, hoelion, esgid, clymiadau cebl, sticeri, a chardfwrdd.

240cm x 90cm x 8cm

## **7. Mental Health Parasol, 2020**

*Rwyf wedi dioddef gan iselder ers dros 20 mlynedd, ar  l sesiwn therapi, gweithiais yn fy stiwdio a chr wyd y darn hwn mewn 2 ddiwrnod.*

*Mae'r cerflun papur yn gwahodd rhyngweithio deallusol ac emosiynol   thema iechyd meddwl. Trwy sefyll oddi dano ac edrych i fyny, mae gwylwyr yn ymgysylltu'n gorfforol  r gwaith celf, gan brofi eiliad o lonyddwch yng nghanol ei gylchdro, sy'n symboleiddio natur barhaus meddyliau ac emosiynau, yn ogystal   threigl amser. Mae'r llais mewnol uchel a gyfl ir trwy ffont amlwg, sy'n bloeddio, gan ben inc parhaol, yn chwyddo'r myfyrdodau a'r emosiynau personol sy'n rhan annatod o'r darn*

Parasol papur, cortyn, papur sidan a phen inc parhaol   nib llydan

140cm x 120cm x 120cm

## **8. Nautical Punk, 2007**

Wedi'i gomisiynu gan Selfridges i eistedd ochr yn ochr   chasgliad Gwanwyn a Haf 2007 roeddent wedi'i archebu.

Tiwnig Voile cotwm gwyn/glas tywyll wedi'i dorri ar y bias  
Gwddf   thri agoriad   rhwymiad bias  
Mwclis p l ffabrig manylion ar yr ysgwydd  
Marsiwr parhaol  
Hoelion a phinnau gwallt,

Stydiau wedi'u gwnïo â llaw  
Bach a llygad wedi'u gwnïo â llaw  
Webin cotwm  
Sgert â gwasg isel  
Brodwaith inc seren pwyth Kantha  
Tagiau ffabrig wedi'u gwneud o ffabrig hesian  
Ymylon wedi'u brodio â pheiriant mewn lliwiau cyferbyniol  
Tâp bias a ffesin gweog ar gyfer gwaelod y sgert  
Hoelion a phinnau gwallt,  
Stydiau wedi'u gwnïo â llaw  
Cynfas cotwm â bach a llygad wedi'u gwnïo â llaw

## **9. Propose, 2021**

Wedi'i gomisiynu gan Mental Fight Club

*Cynlluniwch eich amser ar gyfer hunanofal ac arbedwch egni. Byddwch yn garedig â chi'ch hun.*

*Ailadroddwch ar f'ôl*

*'Dwi'n wych " x 3 gwaith yn uchel*

Papur pecynnu brown, cerdyn, blwch wyau, cambren, cortyn, papur sidan, edau, clip fforchog, marcwyr a beiros.

147cm x 80cm x 2cm

## **10. Gwisg Torri Rhagfarn gyda Gwasg Panelog elastig, harddangos yn Selfridges.**

Llyfr braslunio dylunydd o syniadau a ddangoswyd yn Selfridges, ffrog wedi'i thorri ar y bias â gwasg â phanel elastig.

Y ffabrig yw gynfas trwm a voile wedi'i argraffu â phapur graff.

Deunyddiau crai fel webin heb ei liwio, pegiau pren, stydiau wedi'u gwnïo â llaw, pinnau gwallt wedi'u brodio â llaw, clymau dolen a thaselau webin.

---

## **11. Memory (y Gludwaith Cyntaf), 2012 - 2017**

*Y swydd mewn bar*

*Tafarn Roxy Beaujolais*

*Seven Stars*

*Stryd Carey, Llundain*

*Cath breswyl â cholera pletig - Ray Brown*

*Roedd gen i ddrôr yn fy mwrdd wedi'i stwffio â phapurau a derbynebau wedi'u crensiar, pennau ffelt, pren mesur pren a beiro, rwy'n hoffi Beiros*

*Roedd y llun hwn amdanaf i*

*Roeddwn i wedi cadw darnau o effemera â stamp amser*

*Amhendrantrwydd ac ansicrwydd oedd y cof a'r naws, Fel cartograffydd yn mapio tiriogaethau anghyfarwydd, mapiais fy meddyliau a'm hemosiynau ar bapur yn ofalus. gan greu darnau o bos, gan dynnu llinellau ar bapur roeddwn i'n teimlo'n sicr o'u herwydd.*

*Gweithiais arno dros gyfnod o 5 mlynedd, ei ailwampio, ei storio o'r golwg, ei dapio ar fy wal, ei guddio, ac ailadroddais hyn.*

Gludwaith, Papur ar Bapur

71.1cm x 58.4cm x 3.8cm

## **12. Togetherness, 2020**

*Wedi'i ysbrydoli gan Grayson Perry's Art Club ar Channel 4, yn ystod yr wythnos bortreadau, fe wnes i gofleidio'r thema trwy symud y tu hwnt i ludwaith 2D ac archwilio cerfluniau. Roedd y cyfrwng newydd hwn yn fy ngalluogi i fynegi fy nghreadigrwydd ar ffurf tri dimensiwn, wedi'i hongian gan edau ar gambren wifren. Daeth y cerflun yn bortread o'n cymdeithas amlddiwyllyannol gymhleth, gan dynnu sylw at faterion hanfodol sydd angen sylw.*

*"Mae gennym fwy yn gyffredin na'r hyn sy'n ein rhannu," mae'r darn hwn yn deyrnged i Jo Cox AS.*

---

Cambren wifren, cortyn, edau, cerdyn, papur, ffelt, webin plastig.

130cm x 50cm x 2cm

### **13. Clogyn â phaneli streipiog, 1999**

*Datblygodd y syniad hwn wrth astudio ffasiwn yn fy mlwyddyn gyntaf yng Ngholeg Celf Caeredin ym 1993*

Edau neilon wedi'i bwytho mewn hydoedd rhwng y cylchoedd gwasgarog a wnaed o ffabrig dhoti wedi argraffu  
Ffabrig wedi argraffu â bloc llaw wedi'i gwiltio

Dhoti. - Lliain lwynau y mae dynion yn ei gwisgo mewn rhai rhannau o India.

### **14. Ffrog Gloch, 1999**

Mae'r iau bib wedi'i wneud o ffabrig pecynnu a ddefnyddir i orchuddio blychau cardbord i'w hallforio  
Voile brown wedi'i dorri o hen Sari  
Brodwaith seren wlân Kantha  
Trim satin polyester  
Cwilt Pallawi sinha tye dye Rezai  
Clytwaith diemwnt

### **15. Proffer, 2021**

Wedi'i gomisiynu gan Mental Fight Club

*Ysbryd Haelioni; Mae haelioni yn emosiwn cadarnhaol y mae parodrwydd i roi neu rannu ag eraill yn ei nodweddu, yn aml heb ddisgwyl unrhyw beth yn ôl. Mae'n cynnwys ymdeimlad o ddigonedd ac awydd i gyfrannu at les pobl eraill, boed hynny trwy weithredoedd o garedigrwydd, rhoddion, neu ffurfiau eraill o gefnogaeth.*

Rhaff felen, gwllân blwch wyau, pennau ffelt, cerdyn neu bapur, bagiau plastig, llwyau coffi

147cm x 80cm x 2cm

## **16. Chaggar Wahe Guru**

*Mae Southall yn gymuned fywiog yng Ngorllewin Llundain sy'n adnabyddus am ei phoblogaeth De Asia yn bennaf. Wedi'i setlo'n wreiddiol gan fewnfudwyr o India, Pacistan, Bangladesh, a Sri Lanka gan ddechrau yn y 1950au a'r 1960au, mae Southall wedi tyfu i fod yn ganolbwynt diwylliannol sy'n cael ei ddathlu am ei fwyd, cerddoriaeth a thraddodiadau amrywiol. Mae'r ardal yn gartref i farchnadoedd prysur, temlau, a chanolfannau cymunedol sy'n gweithredu fel canolbwyntiau ar gyfer gweithgareddau diwylliannol a chymdeithasol. Mae tapestri cyfoethog Southall o dreftadaeth De Asia yn amlwg yn ei siopau sy'n gwerthu sbeisys, tecstilau, a gwisg draddodiadol, gan adlewyrchu ymdeimlad cryf o hunaniaeth a balchder y gymuned.*

*Roedd llofruddiaeth Gurdip Singh Chaggar ym 1976 yn ddigwyddiad trasiog a chreiddiol a ddatgelodd densiynau hiliol yn Southall, Llundain. Cafodd Chaggar, llanc Sikhaid 18 oed, ei ladd yn greulon mewn ymosodiad hiliol gan grŵp o lanciau gwyn. Gadawodd y digwyddiad farc dwfn ar y gymuned De Asiaidd, gan ysgogi dicter eang a phrotestiadau yn erbyn trais hiliol a gwahaniaethu.*

*Daeth gwaed Chaggar yn staenio'r palmant yn symbol brawychus o'r heriau a wynebwyd gan Dde Asia ym Mhrydain yn y 1970au, lle'r oedd ymosodiadau hiliol yn annifyr o aml. Roedd y modd yr ymdriniwyd â'r achos gan yr heddlu, a ganfyddir yn eang fel gwahaniaethol, yn tanlinellu rhagfarnau systemig o fewn gorfodi'r gyfraith.*

*Denodd y llofruddiaeth sylw cenedlaethol, gan sbarduno galwadau am gyfiawnder a newid systemig wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol. Ystyriwyd y treial dilynol fel prawf litmws ar gyfer ymrwymiad system gyfreithiol Prydain i fynd i'r afael â thrais hiliol yn deg ac yn effeithiol.*

*Yn sgil llofruddiaeth Chaggar, unodd cymuned Southall mewn galar a phenderfyniad. Fe wnaethant drefnu gorymdeithiau, gwylnosau, ac ymgyrchoedd eiriolaeth i dynnu sylw at anghyfiawnder hiliol ac eiriol dros well amddiffyniadau i leiafrifoedd ethnig. Ysgogodd y drasiedi undod*



---

*ymhlith De Asiaid a grwpiau ymylol eraill ledled Prydain, gan adael gwaddol annileadwy yn y frwydr barhaus yn erbyn hiliaeth a datblygiad amlddiwylliannedd yn y wlad.*

*"Waheguru" yw'r mantra mwyaf sanctaidd mewn Sikhaeth, sy'n mynegi parchedig ofn a rhyfeddod tuag at y Dwyfol. Mae Sikhiaid yn ei ddefnyddio mewn myfyrdod i gysylltu â Duw a meithrin ymwybyddiaeth ysbrydol.*

Ffabrig, cotwm, papur sidan, trowyr coffi, pecynnu ewyn, melfed, cerdyn, cardbord, gwlan, pecynnu plastig net, rhwymyn, asetad, metel, rhuban, ffabrig clustogwaith, webin coch, esgyrniad, edau, styffylau, blew march, jiwt, twin, cortyn.

## **17. Witness, 2021**

### **This Woman's Work, Kate Bush**

*Pray God you can cope  
I'll stand outside  
This woman's worth  
This woman's world  
Oh it's hard on a man  
Now his part is over  
Now starts the craft of the father  
I know you've got a little life in you left  
I know you've got a lotta strength left  
I know you've got a little life in you left  
I know you've got a lotta strength left  
I should be cryin' but I just can't let it show  
I should be hopin' but I can't stop thinkin'  
All the things we should've said that are never said  
All the things we should've done that we never did  
All the things we should've given, but I didn't  
Oh darlin', make it go  
Make it go away  
Give me these moments  
Give them back to me  
Give me your little kiss  
Give me your...  
Give me your hand baby  
(I know you've got a lotta strength)*

*Give me your pretty hand  
(I know you've got a little life in you left)  
Ooo show me you understand  
(I know you've got a lotta strength left)  
Your lovechild  
(I know you've got a little life in you left)  
Whatever you need baby  
(I know you've got a lotta strength left)  
Give me your hand  
(I know you've got a little life in you left)  
Give me your love  
(I know you've got a lotta strength left)  
I should be cryin' but I just can't let it show baby  
I should be hopin' but I can't stop thinkin  
All the things we should've said that we never said  
All the things we should've done that we never did  
All the things that you wanted from me  
All the things that you needed from me  
All the things we should've given, but I didn't  
Oh darlin', make it go away now,  
Just make it go away.*

Sticeri, tagiau trysorlys, cardfwrdd, cortyn, papur, amlenni , papur sidan, sbwng pecynnu, clymiadau cebl, pren, ffelt, cambrenni gwifren.

147cm x 80cm x 2cm

## **18. Hiliaeth Sefydliadol: Teyrnged i Stephen a Doreen Lawrence, 2024**

*Mae stori Stephen yn heriol ac yn ysbrydoledig. Roedd yn berson ifanc cyffredin a oedd yn gwneud y mwyaf o gyfleoedd bob dydd. Er bod ei fywyd yn fyr, mae Stephen yn fodel rôl cadarnhaol o fywyd sy'n cael ei fyw'n dda.*

*Cafodd Stephen Lawrence ei eni a'i fagu yn ne-ddwyrain Llundain, lle bu'n byw gyda'i rieni Neville a Doreen, ei frawd Stuart, a'i chwaer Georgina. Fel y rhan fwyaf o bobl ifanc, roedd yn jyglo bywyd cymdeithasol gweithgar, gwaith ysgol, ymrwymadau teuluol, a chyflogaeth ran-amser. Roedd ganddo hefyd uchelgeisiau i ddefnyddio ei dalent ar gyfer*

---

*mathemateg, celf, a dylunio i ddod yn bensaer, ac roedd am gael effaith gadarnhaol ar ei gymuned.*

*Yn drasig, ni wireddwyd ei freuddwyd o ddod yn bensaer. Ar 22 Ebrill 1993, yn ddim ond 18 oed, cafodd Stephen ei lofruddio mewn ymosodiad hiliol digymell. Nid oedd yn adnabod ei laddwyr ac nid oedd ei laddwyr yn ei adnabod. Ar ôl ymchwiliad cychwynnol yr heddlu, arestiwyd pump o bobl dan amheuaeth ond ni chawsant eu collfarnu. Cynhaliwyd ymchwiliad cyhoeddus i'r modd yr ymdriniwyd ag achos Stephen ym 1998, gan arwain at gyhoeddi Adroddiad Macpherson, sydd wedi'i alw'n 'un o'r adegau pwysicaf yn hanes modern cyfiawnder troseddol ym Mhrydain'. Arweiniodd at newidiadau diwylliannol dwys mewn agweddau at hiliaeth, y gyfraith, ac arferion yr heddlu. Fe wnaeth hefyd baratoi'r ffordd ar gyfer gwell dealltwriaeth o wahaniaethu ym mhob ffurf a deddfwriaeth cydraddoldeb newydd.*

*"Mae cyfiawnder i Stephen yn ymwneud â phob un ohonom, pob un ohonom, yn y gymdeithas yn cael cyfiawnder. Mae yna ormod o bobl ifanc o hyd nad oes ganddyn nhw ymdeimlad o obaith, sydd ddim yn cael y cyfle i fyw eu breuddwydion. Rwyf am i'n holl blant a phobl ifanc deimlo eu bod wedi'u hysbrydoli, bod yn hyderus, a chael gobaith yn eu dyfodol eu hunain. Rydyn ni'n adeiladu gobaith ond mae mwy i'w wneud."*

Y Farwnes Doreen Lawrence yn siarad wrth Gofeb Pen-blwydd 20 yn 2013 am lofruddiaeth ei mab.

Yn 2018, cyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, Theresa May y byddai Ebrill 22 yn cael ei gydnabod yn swyddogol fel Diwrnod Stephen Lawrence o 2019 ymlaen.

Darllen pellach: <https://stephenlawrenceday.org>

Deunyddiau: Pinnau diogelwch, edau, cansen canol, clymau cebl, llinyn papur newydd, pot plastig, cardbord, gwifrau lliw, rhuban sidan, rhaff macrame, edau neilon.

---

## 19. Build, 2021

Wedi'i gomisiynu gan Mental Fight Club

*Wedi'i grefftio o bapur cain, cerdyn, a ffabrig — derbyniadau wedi'u hailgylchu ac eitemau eraill a dynnwyd o fin ailgylchu'r swyddfa — mae'r prosiect hwn yn ymgorffori ein hymrwymiad i gynaliadwyedd. Gadewch i ni uno i adeiladu cymuned ofalgar sy'n cyfrannu at anghyfiawnderau yn ogystal â'u herio. Gyda'n gilydd, gallwn greu dyfodol mwy cynaliadwy.*

Papur, cardfwrdd, cortyn, tâp ffoil, tocynnau trê, cambren, styffylau, gwlan, marcwyr, cwpan coffi.

Webin, deunydd pecynnu, marcwyr.

147cm x 80cm x 2cm

## 20. The Romance and The Rope, 2024

*Fe wnaeth Rhyfel India-Pacistan 1971, a arweiniodd at annibyniaeth Bangladesh o Bacistan, ddwysau'r mewnlifiad o fewnfudwyr Bangladeshaid. Arweiniodd y rhyfel at drais eang, dadleoli, ac ansefydlogrwydd economaidd, gan ysgogi llawer o Bangladeshiaid i geisio lloches a dechrau newydd mewn lleoedd fel Brick Lane. Daeth yr ardal hon yn ganolbwynt i'r gymuned Bangladeshi, lle gallent ailadeiladu eu bywydau, dod o hyd i waith, a sefydlu ymdeimlad o berthyn yng nghanol yr heriau o addasu i wlad newydd.*

*Yn y 1960au, ymfudodd nifer sylweddol o Bangladeshiaid i Brick Lane yn Nwyrain Llundain, gan geisio gwell cyfleoedd economaidd ac amgylchedd mwy diogel i'w teuluoedd. Roedd llawer yn cael eu hysgogi gan y gobaith o ddianc rhag tlodi ac aflonyddwch gwleidyddol yn eu mamwlad. Roedd y mewnfudwyr hyn yn dyheu am adeiladu cymuned lewyrchus, sefydlu bywoliaethau sefydlog, a darparu mynediad i addysg a dyfodol mwy disglair i'w plant.*

*Gall rhaffau pysgota fod yn drosiad pwerus ar gyfer y gymuned Bangladeshaid a symudodd i Brick Lane. Yn union fel y mae rhaffau pysgota yn cydblethu ac yn cysylltu, gan gryfhau gallu'r pysgotwr i gludo dalfa, mae'r Bangladeshiaid a ymfudodd i Brick Lane yn y 1960au a'r 1970au yn plethu eu gobeithion unigol, eu breuddwydion, a'u brwydrau i*

*greu cymuned gadarn a chefnogol. Mae'r rhaffau hyn, sy'n parhau dan straen a thynfa'r môr, yn symbol o wydnwch ac undod y mewnfudwyr Bangladeshaidd wrth iddynt wynebu caledi economaidd, addasu diwylliannol, a gwahaniaethu ar sail hil.*

*Daeth llawer o'r gwahaniaethu hwn o'r NF, sefydliad gwleidyddol ffasgaidd, asgell dde eithafol yn y Deyrnas Unedig, sy'n adnabyddus am ei safbwyntiau eithafol, yn enwedig ei safiad yn erbyn mewnfudo a'i hyrwyddiad o genedlaetholdeb gwyn. Roedd yr NF yn aml yn trefnu gorymdeithiau a ralïau mewn ardaloedd â phoblogaethau mawr o fewnfudwyr, a oedd yn aml yn arwain at wrthdaro a mwy o densiynau hiliol.*

*Ar ôl symud i'r Deyrnas Unedig i chwilio am gyfleoedd gwell, ar Fai 4ydd, 1978, yn ddim ond 25 oed, cafodd Altab Ali, gweithiwr tecstilau Bangladeshaidd ifanc a oedd wedi dod yn symbol o anghyfiawnder hiliol a gwydnwch cymunedol yn Nwyrain Llundain, ei lofruddio'n drasig mewn ymosodiad hiliol yn Whitechapel, Dwyrain Llundain. Syfrdanodd ei farwolaeth y gymuned Bangladeshi leol, gan sbarduno protestiadau ac ymrwymiad o'r newydd i frwydro yn erbyn hiliaeth a gwahaniaethu. Mae etifeddiaeth Altab Ali yn parhau, gyda pharc wedi'i enwi er anrhydedd iddo a choffau blynyddol sy'n ein hatgoffa o'r frwydr barhaus dros gydraddoldeb a chyfiawnder.*

Rhaffau Pysgota Cymysg wedi'u Taflu, blodau papur, rhuban, cortyn, peg dillad, cerdyn papur, rhaff papur ag edau, gorchuddion plastig, lein ddillad, styffylau, edau neilon, les, sip, ffelt.

Mae 'Defiance' y cyfarwyddwr arobryn Satiyesh Manoharajah yn adrodd hanes mudiad gwrth-hiliaeth De Asia ym Mhrydain yn y 70au a'r 80au.

## **21. Rise, 2021**

*Er mwyn cynyddu symudedd cymdeithasol, mae ton newydd o feddwl yn hanfodol mewn llywodraethu a busnes, lle mae gofal a sefydlogrwydd wrth wraidd y gymuned. Mae'r dull hwn o weithredu'n cynnwys strategaeth amlochrog sy'n integreiddio polisïau economaidd, rhaglenni cymdeithasol, addysg, ac ymgysylltu â'r gymuned.*

---

Ffoil pinc, cambren gwifren, cortyn, nodyn gludiog, rhuban, cerdyn pecynnu, cardfwrdd, gwllân, marcwyr, beiro, pren.

147cm x 80cm x 2cm

## **22. Top, 2007**

Patrwm diemwnt wedi sgrin-argraffu â llaw, tâp webin voile cotwm.

## **23. Ffrog glytwaith â chefn ymledol, 2001**

Geiriau wedi'u hargraffu â llaw yn Saesneg, Wrddw a Hindi. Croesau sidan tassur pinc applique wedi'u pwytho â llaw ar draws Khadi pwysau canolig wedi'i nyddu â llaw. Ffesin clytwaith cotwm print blodau a diemwnt voile arddull Shalwar poncha ar waelod y ffrog.

Brodwaith peiriant ar gefn y ffrog

Shalwar Poncha. - Hem y trowsus shalwar.

Gorffeniadau wedi'u gwnïo â llaw

## **25. Gwanwyn Haf 2003**

### **Top organdi wedi'i sgrin argraffu**

Clytiau crwn ag ymylon wedi'u brodio â pheiriant, pletiau a gorffeniadau wedi'u gwnïo â llaw

### **Sgert organdi**

Pletiau denim a rhwyllen Tiwl main

### **Siaced â llawes clytwaith**

Cynfas a Georgette sidan, tâp bias

---

## **25. Trowsus a thiwnig â phletiau llaes, 2007**

Top wedi sgrin argraffu â dyluniad Paisley  
Panel uchaf wedi'i gwiltio  
Khadi wedi nyddu â llaw  
Print wedi sgrin argraffu  
Print stensil cyfeiriad ar ei ben  
Botymau potli ar ymyl gwaelod trowsus

Wedi'i gynhyrchu gan Anokhi, Jaipur, India

## **26. Gwisg Voile Gwyn, 2008**

Paneli cotwm hufen, dros bwytho llwyd, clytiauwedi'u cwiltio a webin cotwm hufen.

## **Crys hufen anarferol o fawr, 2003**

Coler a chyffiau wedi'u brodio â pheiriant, cyffiau pletio, leinin polca dot, manylion hollt ar y fraich, botymau clecwr a phocedi wedi'u cwiltio.

## **Sgert amlapio polca dot, 2003**

Ffesin gwaelod Organdi diemwnt, brodwaith â llaw, clymau Ffrengig ac applique sidan.

## **Beth am siarad am Punjab**

### **27.PANJ (brodwaith) Gwaith Celf wedi'i Fframio**

### **28.AAB (collage) Gwaith Celf wedi'i Fframio**

*Mae rhieni Liaqat o Salimpur, Toba Tek Singh, Punjab, Pacistan. Mae'r artist yn arddangos eu treftadaeth trwy ddau ddarn o waith celf wedi'u fframio â'r teitlau "Panj" (5) ac "Aab" (Afon), sy'n ffurfio'r gair "Punjab". Mae'r fframiau wedi'u harddangos ar stonidin farchnad wedi'i hadfer, ac mae pob un yn cynrychioli lliwiau, egni a hanes Punjab yn India a Phacistan, gan gyfeirio at raniad 1947.*

*Caiff Punjab ei adnabod fel Tir y Pum Afon. Mae'n estyn dros ddwyrain Pacistan a gogledd-orllewin India, gyda dinasoedd mawr fel Lahore,*

*Faisalabad, Amritsar a Ludhiana. Mae wedi bod yn rhanbarth amaethyddol allweddol ers gwareiddiad Indus Valley ac mae'n dal i fod yn hanfodol ar gyfer India a Phacistan.*

*Heddiw mae Siciaeth a Hindŵaeth yn amlwg iawn yn Punjab India, ac Islam yw'r grefydd amlycaf yn Punjab Pacistan, er bod cymunedau Cristnogol bach yn y ddau ranbarth.*

*Mae gan Punjabis, sy'n adnabyddus am sgiliau rhwydweithio a'u hegwyddor gwaith, bresenoldeb cryf yn y ddwy wlad. Yn y 1960au, symudodd Punjabis i'r DU i weithio i'r GIG a llenwi bylchau o ran llafur, agor stondinau marchnad a bwytai, a chyflwyno seigiau fel aloo gobi, saag aloo a chyw iâr menyn.*

**Troednodyn:** *Fe wnaeth The East India Company, a sefydlwyd ym 1600, chwarae rhan ganolog yn hanes India. Fe ehangodd ei ddylanwad trwy fasnach a choncwest, a olygodd bod Punjab yn allweddol ar gyfer recriwtio milwyr. Gwnaeth gweinyddiaeth y cwmni osod y sylfeini ar gyfer rheolaeth ymerodrol Brydeinig nes i India gael annibyniaeth ym 1947, gan effeithio'n sylweddol ar fasnach fyd-eang a geowleidyddiaeth.*

